

Dyma ychydig o enghreifftiau o blanhigion ac anifeiliaid ymosodol a allai ddod yn broblem ddifrifol yn ein dyfrffyrdd:

CHWISTRELL FÔR CARPED

Er bod pob chwistrell unigol yn fychan iawn (1 mm o hyd), mae chwistrell fôr carped yn tyfu mewn clystyrau a all ymestyn dros sawl cilomedr. Mae'r clystyrau hyn yn gwthio rhywogaethau morol cynhenid allan ac yn achosi niwsans i bysgotwyr a pherchnogion cychod gan eu bod yn tagu offer pysgota, yn gorchuddio ochr isaf cychod ac yn mygu riffiau.



EWINEDD MOCH

Mae ewinedd moch yn ffurfio cadwyni a staciau a all gynnwys hyd at 15 o unigolion. Gallant lwtgu a mygu pysgod cregyn brodorol a bod yn bla difrifol mewn gwelyau wystrys a chregyn glas, gan effeithio ar bysgodfeydd.



WAKAME

Mae'r gwymon mawr hwn sy'n tyfu'n gyflym yn ffurfio matiau sy'n drifftio ac sy'n gallu tagu marinâu ac ardaloedd hamdden, gorchuddio ochr isaf cychod a strwythurau harbwr, a chystadlu'n llwyddiannus yn erbyn rhywogaethau brodorol.



ATAL YR YMLEDIAD

Gallwch ganfod mwy am blanhigion ac anifeiliaid ymosodol a sut i'w hatal rhag ymledu yn:

nonnativespecies.org/checkcleandry

@CheckCleanDryGB

Sganiwch y cod QR ar eich ffôn symudol



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

natural
scotland
SCOTTISH GOVERNMENT

NNSS
GB is in it - it is in us

ANGLING
TRUST
THE VOICE OF ANGLING

Lluniau gan: Cyfoeth Naturiol Cymru a GB NNSS.

Mae planhigion ac anifeiliaid ymosodol yn niweidio amgylchedd y môr ac yn ymyrryd â physgota

Peidiwch â'u helpu i ymledu ar eich offer

EDRYCH

GOLCHI

SYCHU

Mae planhigion ac anifeiliaid ymosodol o bob rhan o'r byd wedi eu cyflwyno'n ddamweiniol i ddyfroedd ym Mhrydain. Mae dros hanner cant o rywogaethau morol eisoes wedi eu canfod, ac mae'r niferoedd sy'n cyrraedd o'r newydd yn cynyddu'n gyflym.

Maent yn achosi problemau amgylcheddol difrifol a all fod yn ddi-droi'n-ôl – gan gystadlu'n llwyddiannus yn erbyn bywyd gwyllt brodorol, achosi niwed i ecosystemau a lledaenu clefydau. Gallant hefyd ymyrryd â physgota drwy dagu offer, halogi arwynebau caled gan gynnwys cyrff cychod ac achosi difrod i gychod.

Gallant fod yn fychan ac anodd eu canfod felly mae'n hawdd iddynt ymledu ar gychod, offer a dillad tamp. **Cofiwch ddiogelu amgylchedd y môr a'r pysgota a fwynhewch drwy gadw'ch offer yn rhydd o blanhigion ac anifeiliaid ymosodol.**

EDRYCH

Edrychwch ar eich gêr ar ôl dod allan o'r dŵr gan chwilio am ddeunydd halogi neu ddeunydd planhigion. Tynnwch unrhyw beth y byddwch yn ei ddarganfod, a'i roi yn y bin. Os ydych chi'n defnyddio cwch, dylech ail-roi deunydd gwrth-halogi yn flynyddol.

GOLCHI

Golchwch bopeth yn drylwyr gyda dŵr croyw cyn gynted ag y gallwch, gan roi sylw i rwydi, esgidiau pysgota a mannau sy'n damp ac yn anodd mynd atynt.

SYCHU


Sychwch – draeniwch ddŵr o bob rhan o'ch cwch a'r ôl-gerbyd cyn gadael y safle. Sychwch bopeth am gyhyd â phosibl cyn eu defnyddio yn rhywle arall.

ATAL YR YMLEDIAD

Mae hyd yn oed yn bwysicach **Edrych Golchi Sychu** os os ydych chi'n mynd â'ch offer dramor, i sicrhau nad ydych yn dod ag unrhyw blanhigion neu anifeiliaid yn ôl gyda chi.

Sicrhewch fod popeth yn lân ac wedi cael eu sychu'n drylwyr cyn i chi eu defnyddio eto ar ôl dod adre.

Cofiwch edrych yn ofalus ar y mannau hyn



Gallwch wneud cais am ddeunyddiau codi ymwybyddiaeth ynghylch Edrych Golchi Sychu ar gyfer eich clwb yn rhad ac am ddim o nonativespecies.org/checkcleandry